

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, NOS LUN 25ain Ebrill, 2016.**

**PRESENNOL**

Cyng.Nerys Dobson (Cadeirydd), Cyng.Dewi Wynne Jones, Cyng.Arwel Ll. Jones, Cyng.Mike Rayner  
Cyng.Alun Morris, Cyng.John Owen, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng.Hefin Martin, Cyng.Eifion Williams, Cyng Dewi Arfon Jones

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 14/3/2016.

**GWELLHAD BUAN**

Nododd Y Cadeirydd ein bod yn anfon ein cyfarchion at Cyng.Hefin Martin sydd ar hyn o bryd yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Croesawyd Cyng.Alun Morris atynt ar ol ei anffawd yn ddiweddar.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**1) GEGIN WEN**

Y Cyngor am drefnu cael llwyth o lechi man i'r maes parcio. Gadael atgyweirio'r clawdd tan yr haf.

**2) ATGYWEIRIO WAL MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Cadarnhawyd fod y wal wedi cael ei drwsio yng Nghadair Ifan Goch gan Mr Elwyn Williams, Tyn Gwern Uchaf.

**CYNLLUNIO**

- Cais Rhif 0/42604 - Estyniad un llawr i'r annedd i ddarparu cyntedd, ystafell amlbwrpas, cyfleuster toiled ar lefel mynediad ac ystafell ardd - Tyn y Berth, Ffordd Fron Francis, Llanddoged.

Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

- Cais Rhif 0/42693 - Estyniad modern yng nghefn drychiad Ffermdy Maes yr Hendre. Addasu adeiladau amaethyddol yn llety gwyliau gan gynnwys estyniad cysylltiedig rhwng 2 adeilad amaethyddol a ffrâm ddu modern(Adeilad Rhestredig) ym Maes yr Hendre, Maenan.

Penderfynwyd a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

**CEISIADAU AM RODD ARIANNOL**

1. Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst .
2. Sioe Wledig Llanrwst.

Pasiwyd i anfon rhodd o £25 i'r Eisteddfod Llanrwst a £30 o bunnoedd rhodd at Sioe Llanrwst.

**CIST CAR, CAE CETYN**

Derbyniwyd llythyr gan Bennaeth Ysgol Gynradd Llanddoged gyda gwybodaeth am drefniant o achlysur o gist car yng Nghae Cetyn ym Mis Mai. Nododd y Cyngor fod dim gwrthwynebiad i'r achlysur yma.

### **DIFFIBLIWR**

Cadarnhaodd y clerc fod arian wedi ei dderbyn gan wanhaol fudiadau o'r gymuned at y diffibliwr ar gwpwrdd. Pasiwyd i anfon llythyr i ddiolch i'r mudiadau am eu cyfraniadau.

### **YSWIRIANT Y CYNGOR**

Derbyniwyd gohebiaeth gan AON Insurance Lt d fod angen adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor. Mi fydd y clerc yn anfon siec am £337.00 o bunnoedd i'r cwmni.

### **GOHEBIAETH**

1. AON Insurance Ltd –Yswiriant y Cyngor.

### **CYNNAL A CHADW**

- 1) Angen ail gysylltu gyda Chonwy ynglŷn ar dwr sydd yn hel o dan y bont wrth Pont y Groes Maenan.
- 2) Tyfiant yn tyfu allan i'r ffordd ar ffordd Trwyn Swch ac yn bachu ar gerbydau.
- 3) Tyllau yn y ffordd Tyddyn Frencher, Maenan.
- 4) Tyllau yn y ffordd Fron Francis,, Llanddoged.
- 5) Skip allan yn y Penrhiw ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
- 6) Gamfa wedi prydu ar Lwybr Cyhoeddus 26 ar ffordd Allt Goch, Llanddoged.